Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Cyfeirnod Rhyddid Gwybodaeth: SCHTh 16-2022**

**Cais: Dyddiedig 09 May 2022**

**Ymateb:**

Medraf gadarnhau bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani, fel yr amlinellir isod:

Cwestiwn:

1. Yr ymchwil ansoddol a meintiol yr ydych wedi'i wneud (arolygon, grwpiau ffocws, cyfweliadau manwl) sydd wedi canolbwyntio ar ganfyddiadau'r cyhoedd neu ddioddefwyr o blismona a throseddu yn 2020/21 a 2021/22

2. Beth oedd allbynnau unrhyw ymchwil ansoddol a meintiol yn 2020/21 a 2021/22 a chopi o'r rhain

3. Dadansoddiad o'r gyllideb a chyfanswm costau'r arolygon hyn yn 2020/21 a 2021/22

4. Os caiff hyn ei gynhyrchu ar gontract allanol neu os darperir unrhyw ran gan gyflenwr allanol a phwy yw'r cyflenwr hwnnw

5. Manylion unrhyw wariant arall ar bleidleisio neu arolygon sy'n ymwneud â'r heddlu a throseddu

Ateb:

**1.**
2020/2021
***Mai – Mehefin 2020***

***Datblygiad Hwb Plismona a Dalfa Sir Gaerfyrddin – Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio***
Rhoddodd yr ymgynghoriad gyfle i'r rhai a allai fod â diddordeb yn y cynigion datblygu weld y pecyn cais drafft, mynegi eu barn, a chodi cwestiynau mewn perthynas â'r datblygiad newydd arfaethedig.

Yn ogystal â hyn, ym mis Mai 2020, cynhaliodd y Comisiynydd gyfarfod cyhoeddus, trwy fideo-gynadledda, gan roi cyfle i drigolion a chynrychiolwyr cymunedol godi cwestiynau am y datblygiad.

***Rhagfyr 2020 – Ionawr 2021***

***'Blaenoriaethau a Chyllid Plismona 2021/22 – Dweud eich dweud'***
Ym mis Rhagfyr 2020, lansiodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn, ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu barn trigolion lleol a pherchnogion busnes ar ddau fater plismona pwysig:

1) Yr hyn y credent y dylai blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys fod, a
2) Faint y byddent yn fodlon talu tuag at blismona lleol, drwy braesept yr heddlu 2021/22 (swm a delir tuag at blismona drwy'r dreth gyngor).

***Ionawr – Chwefror 2021***

***Profiad pobl ifanc o gyswllt yr heddlu***
Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda grwpiau ieuenctid ar draws ardal yr heddlu i gasglu barn pobl ifanc ar gyswllt â'r heddlu a'u profiadau ohono.

Trwy'r grwpiau ffocws, nodwyd unigolion i fod yn rhan o fideo yr oedd Fforwm Ieuenctid y Comisiynydd yn gweithio arno ar gyfer tîm Dysgu a Datblygu Heddlu Dyfed-Powys.

***Ymchwil drwy Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys***
Yn ystod 2020/21, gofynnwyd i aelodau Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys rannu eu barn ar nifer o faterion plismona a throseddu:

1) Cynnwys a chynllun Pecyn Gwybodaeth Dioddefwyr Heddlu Dyfed-Powys.
2) Y broses Cyfiawnder Adferol.
3) Effaith COVID-19 ar wasanaethau cymorth a gwasanaethau llys.

<u>*2021/2022*</u>
***Mai – Mehefin 2021***

***Penodi Prif Gwnstabl***
Roedd yr ymgynghoriad hwn wedi gofyn i drigolion a dioddefwyr troseddau ystyried nodweddion Prif Gwnstabl llwyddiannus fel rhan o'r broses recriwtio ehangach ar gyfer Prif Gwnstabl.

***Mai – Mehefin 2021***

***Ymgynghoriad ar Gynllun yr Heddlu a Throseddu***
Yn dilyn ymgynghoriad 2020/21 gyda thrigolion a busnesau drwy'r holiadur praesept blynyddol ym mis Rhagfyr 2020, canolbwyntiodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) ymgynghoriad pellach ar 5 maes, sef:

1) Dioddefwyr
2) Mynediad
3) Atal
4) Cyfiawnder
5) Cynaliadwyedd

Roedd hwn yn ddull 3 haen o ymgynghori:
1) Sesiynau wedi'u hwyluso gyda grwpiau 'llai lleisiol';
2) Gwahoddiadau personol / anogaeth i grwpiau diddordeb arbennig a phartneriaid;
3) Cyfathrebu / rhannu â'r cyhoedd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

***Hydref 2021 – Tachwedd 2021***

***'Blaenoriaethau Plismona a Chyllid 2022/23 – Dweud eich dweud'***
Ym mis Hydref 2021, lansiodd Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu adborth gan drigolion lleol, partneriaid a pherchnogion busnes ar ddau fater plismona pwysig:

1) Y blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Heddlu a Throseddu 2021/25 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu; a'r
2) Praesept heddlu 2022/23.

***Tachwedd 2021 – Rhagfyr 2021***

***'Troseddau Gwledig a Throseddau Ffermydd yng Nghymru'***
Yr arolwg hwn oedd y trydydd mewn cyfres o werthusiadau bob dwy flynedd o'r mentrau troseddu a phlismona gwledig a ddatblygwyd ar draws Dyfed-Powys; yn ogystal â'r archwiliadau rhanbarthol sydd wedi'u cyhoeddi yn 2017 a 2019, am y tro cyntaf eleni estynnwyd yr arolwg ar draws pob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru. Ynghyd â'r ffocws ehangach hwn y tu hwnt i Heddlu Dyfed-Powys, roedd yr arolwg presennol hefyd yn targedu trigolion gwledig yn fwy cyffredinol – ochr yn ochr â'r gymuned ffermio – i gael eu barn ar blismona, troseddu ac effeithiau ehangach yn sgil Covid a Brexit.

***Rhagfyr 2021 - Ionawr 2022***

***'Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo yn eich ardal leol?'***
Mae'r term Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) yn cyfeirio at weithredoedd o drais neu gam-drin sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, a daeth VAWG i flaen y gad mewn trafodaethau cenedlaethol a sylw yn y cyfryngau yn ystod 2021. Mewn ymateb i'r sylw cenedlaethol hwn, roedd yn bwysig bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ystyried y sefyllfa leol. *Ydy menywod a merched yn teimlo'n anghymesur o anniogel ar draws ardal yr Heddlu?* Er mwyn ymchwilio i hyn, lansiodd y Comisiynydd ymgynghoriad cyhoeddus i asesu teimladau cyffredinol o ddiogelwch. Bydd y wybodaeth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad hwn yn ein galluogi i nodi unrhyw achos o bryder yn lleol o ran teimladau o ddiogelwch, yn benodol o fewn ein poblogaeth fenywaidd.

***Ymchwil drwy Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys***
Yn ystod 2021/22, gofynnwyd i aelodau Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys rannu eu barn ar nifer o faterion plismona a throseddu:

1) Newidiadau arfaethedig yn y modd y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymdrin â, ac yn prosesu, galwadau nad ydynt yn rhai brys gan ddioddefwyr troseddau / digwyddiadau.
2) Datganiadau Personol Dioddefwyr a thempled Datganiad Personol.
3) Cynnwys a chynllun taflen Goleudy yn manylu ar sut mae'r sefydliad yn cefnogi dioddefwyr a thystion.
4) Cynnwys a chynllun canllaw gwybodaeth a chymorth Heddlu Dyfed-Powys i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol difrifol.
5) Yr oriau y mae gwasanaeth cymorth Goleudy ar gael i ddioddefwyr a thystion.
6) Yr hyn a ystyrir fel amserlen dderbyniol ar gyfer galwad yn ôl i ddioddefwr o Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau Heddlu Dyfed-Powys.

Dyma ymateb o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a ddatgelwyd ar 06 Mehefin 2022

Yn ogystal â'r uchod mae gan y Comisiynydd nifer o gynlluniau gwirfoddoli sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd yn craffu ar weithgarwch yr Heddlu. Ceir manylion y rhain ar wefan y Comisiynydd:

Panel Sicrhau Ansawdd - https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/the-office/volunteer-schemes/quality-assurance-panel/

Ymwelwyr Annibynnol i'r Ddalfa - https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/the-office/volunteer-schemes/independent-custody-visitors/

Ymwelwyr Lles Anifeiliaid - https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/the-office/volunteer-schemes/animal-welfare-visitors/

**2.**
***2020/2021***

***Datblygiad Hwb Plismona a Dalfa Sir Gaerfyrddin – Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio***
Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad a thrafodaethau cyfarfodydd cyhoeddus eu hystyried gan Heddlu Dyfed-Powys ac Asbri Planning wrth symud y datblygiad yn ei flaen.

***'Blaenoriaethau Plismona a Chyllid 2021/22 2021/22 – Dweud eich dweud'***
Rhannwyd y canfyddiadau o adran blaenoriaethau plismona'r arolwg gyda chydweithwyr sy'n gweithio ar ddatblygu'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Nid yw'r adroddiad ar gael yn gyhoeddus.

Ymgorfforwyd canlyniadau elfen ariannu'r heddlu (praesept yr heddlu) o'r arolwg hwn yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sydd ar gael ar wefan y Comisiynydd: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/the-office/finance/precept-and-medium-term-financial-plan/

***Profiad pobl ifanc o gyswllt yr heddlu***
Mae'r fideo bellach wedi'i gynnwys fel adnodd hyfforddi gan dîm Dysgu a Datblygu Heddlu Dyfed-Powys.

***Ymchwil drwy Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys***
Fe welwch fanylion canlyniadau gweithgareddau Ymgysylltu'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr ar dudalennau 25-27 o Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Comisiynydd: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/10875/pccs-2020-2021-annual-report.pdf.

***2021-2022***

***Penodi Prif Gwnstabl***
Ystyriwyd barn y cyhoedd gan y Comisiynydd fel rhan o broses ddethol y Prif Gwnstabl.

***Ymgynghoriad ar Gynllun yr Heddlu a Throseddu***
Cafodd safbwyntiau cyfranogwyr y grwpiau ffocws eu hystyried gan y Comisiynydd a'i dîm wrth ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-2025.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

***'Blaenoriaethau Plismona a Chyllid 2022/23 – Dweud eich dweud'***
Cafodd adborth ar y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu drafft ei ystyried gan y Comisiynydd a'i dîm yn ystod cam terfynol y Cynllun.

Ymgorfforwyd canlyniadau elfen ariannu'r heddlu (praesept yr heddlu) o'r arolwg hwn yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sydd ar gael ar wefan y Comisiynydd: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/the-office/finance/precept-and-medium-term-financial-plan/

***Tachwedd 2021 – Rhagfyr 2021***

***'Troseddau Gwledig a Throseddau Ffermydd yng Nghymru'***
Mae'r dadansoddiad wedi'i gwblhau, a bydd adroddiad ar ganfyddiadau'r arolwg yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022.

***'Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo yn eich ardal leol?'***
Mae dadansoddiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r data a gasglwyd a'r adborth a rennir.

***Ymchwil drwy Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys***
Bydd canlyniadau gweithgareddau Ymgysylltu'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn ystod 2021/22 yn cael eu hymgorffori yn Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Comisiynydd.

**3.**
Nid oedd unrhyw gostau penodol wedi'u priodoli i unrhyw un o'r arolygon hyn ac eithrio

- Arolwg 'Blaenoriaethau a Chyllid Plismona' 2022/23 – Hyrwyddo wedi'i Dargedu ar Facebook, ar gost o £29.68.

- Datblygu'r Ddalfa – Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio' – Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gan Asbri Planning Consultants ar gost o £3,575

- 'Troseddau Gwledig a Throseddau Ffermydd yng Nghymru' £8,880 i sefydliad allanol i gynnal y gwaith ymchwil ar ran SCHTh

Ymgymerwyd â phob ymgynghoriad arall gan staff o fewn tîm y Comisiynydd a fu'n hyrwyddo ac yn rhannu'r arolwg yn eang, ac yn dadansoddi'r canfyddiadau fel rhan o'u swyddi o ddydd i ddydd.

**4.**
Dim ond i'r arolygon canlynol y mae hyn yn berthnasol;

- Datblygu'r Ddalfa – Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio' – Cynhaliwyd a gynhaliwyd gan Asbri Planning Consultants
- 'Troseddau Gwledig a Throseddau Ffermydd yng Nghymru' – a gynhaliwyd gan Brifysgol Aberystwyth

Ddim yn berthnasol i unrhyw un o'n hymgynghoriadau eraill.

**5.**
Amherthnasol